# **Arweiniad atodol:** nodi ac ysgrifennu astudiaethau achos arfer effeithiol

**Hydref 2017**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy’n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw diben yr arweiniad atodol hwn?**

Darparu'r arweiniad diweddaraf ar gyfer arolygwyr ar nodi ac ysgrifennu astudiaethau achos arfer effeithiol.

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a'r sector Ôl-16/AB.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2017.

## Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## Astudiaethau achos arfer effeithiol

Mae Estyn wedi ymrwymo i nodi a lledaenu arfer effeithiol mewn ysgolion/darparwyr er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn gallu elwa ar waith rhagorol pobl eraill. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi cyhoeddi astudiaethau achos arfer orau ar ei wefan i annog ysgolion/darparwyr, arweinwyr, rheolwyr a staff i'w defnyddio at ddibenion hyfforddi a datblygu a gosod safonau proffesiynol uchel. O fis Medi 2017, bydd Estyn yn ymestyn y dull hwn i gynnwys astudiaethau achos arfer ddiddorol neu arloesol y mae timau arolygu yn ystyried eu bod yn werth i eraill eu rhannu neu'u hefelychu.

Mae'r pwyntiau isod yn rhoi arweiniad i'r tîm arolygu wrth ystyried astudiaethau achos arfer effeithiol.

1 Disgwylir i ysgolion/darparwyr amlygu i arolygwyr unrhyw arfer effeithiol y maent wedi'i nodi yn eu hadroddiad hunanarfarnu diweddaraf. Dylai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer yr ystyriaeth y bydd arolygwyr yn ei rhoi i enghreifftiau o arfer effeithiol.

2 Os bydd ysgol/darparwr yn cael barn ragorol am unrhyw Faes Arolygu, bydd y tîm arolygu wedi nodi un, neu fwy o bosibl, o enghreifftiau o arfer effeithiol yn yr ysgol/y darparwr y mae'n werth ei hefelychu ac yn sicrhau ei bod yn cael ei lledaenu'n ehangach. Bydd yr astudiaethau achos hyn yn parhau i gysylltu â barnau rhagorol ac yn dangos enghreifftiau o arfer hynod effeithiol. Ar ôl mis Medi 2017, dylai'r Arolygydd Cofnodol barhau i ofyn i'r ysgol/darparwr am astudiaeth achos ble mae barn ragorol. Gweler: <u>Arweiniad ar arfarnu perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig.</u>

3 Yn y trefniadau arolygu newydd, gallai'r tîm arolygu nodi enghreifftiau o arfer effeithiol ddiddorol neu arloesol y mae'n werth ei rhannu â phobl eraill, hyd yn oed os nad yw'r Maes Arolygu wedi derbyn barn rhagorol yn gyffredinol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn gwahodd yr ysgol/y darparwr i baratoi un neu ddwy astudiaeth achos ysgrifenedig ddewisol ar y meysydd arfer effeithiol cytûn.

4 Fodd bynnag, ni ddylai arolygwyr ofyn am astudiaethau achos ar gyfer arfer ddiddorol neu arloesol pan fydd yr arolygiad yn rhoi ysgol/darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol neu ble bernir bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn is na 'Da'. Fel rheol gyffredinol, ni ddylai'r astudiaeth achos ymwneud yn uniongyrchol â Maes Arolygu sy'n derbyn yn is na 'Da' ar y cyfan.

5 Gallai arfer arloesol fod yn waith sydd ar flaen y gad sy'n gwthio'r ffiniau, ond nid oes rhaid iddo fod yn unigryw. Os yw'r gwaith yn deillio o gydweithio â phobl eraill, neu ddysgu oddi wrthynt, yna mae'n annhebygol o fod yn unigryw.

6 Nid oes angen i arfer ddiddorol fod yn arloesol bob amser. Gallai ei rhinwedd ymwneud yn fwy â'i heffaith gynaledig dros gyfnod, lefel uchel ei heffeithiolrwydd neu'r ymdrech a'r dychymyg penodol sy'n gysylltiedig â hi sydd efallai'n ei gwneud yn wahanol i waith a allai ymddangos yn debyg mewn darparwyr eraill. Gallai enghreifftiau eraill fod yn agosach at yr hyn yr ydym wedi deall yn y gorffennol ei bod

yn ‘arfer orau’, er nad yw’r maes arolygu mae’r arfer hon yn digwydd ynddo efallai wedi derbyn barn gyffredinol ‘Rhagorol’.

7 Dylai’r tîm fod yn hyderus fod yr arfer a ddisgrifir yn waith y gallai ysgolion/darparwyr eraill fwrw ymlaen ag ef mewn gwahanol leoliadau. Os yw’r rhesymau dros y diddordeb ynddi yn ymwneud â’r ffaith na ellir ei hefelychu’n hawdd, mae’n annhebygol y bydd o lawer o werth i ddarparwyr eraill.

8 Gallai ysgolion/darparwyr fod wedi sefydlu arfer arloesol yn gymharol ddiweddar. Mewn achosion o’r fath, efallai nad yw’r gwaith wedi dangos effaith gynaledig ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion/dysgwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd barnu effeithiolrwydd cyffredinol yr arfer neu p’un a yw’r ysgol/darparwr yn gallu cynnal y gwelliant a neu’i effaith ar ddysgwyr dros gyfnod. Fodd bynnag, gallai’r arfer fod o ddiddordeb i ysgolion/darparwyr eraill o hyd, a bod gwerth ei hystyried ymhellach.

9 Pan fydd gwefan Estyn eisoes yn cynnwys astudiaethau achos am arfer debyg iawn, mae’n annhebygol y bydd llawer o werth i astudiaethau achos pellach, ond gallai’r arfer ei hun fod yn rhagorol neu’n hynod effeithiol o hyd.

10 Gallai’r hyn sy’n gyfystyr ag arfer ddiddorol ac arloesol newid wrth i’r cylch arolygu symud ymlaen ac wrth i ysgolion/darparwyr ddatblygu a gwella eu harfer ymhellach.

# Beth sy’n digwydd ar ôl i’r tîm arolygu nodi arfer effeithiol?

**ACof** – Arolygydd Cofnodol **CydAr** – Cydlynydd Arolygu **AS** – Arweinydd Sector
**SA** – Swyddog Arweiniol

- **ACof yn gwahodd y darparwr i ysgrifennu 1 neu 2 astudiaeth achos** → Anfon templed astudio at y darparwr → Dim mwy na 600 gair yr un → Sicrhau bod adran berthnasol y FfF adrodd wedi'i llenwi → ACof yn hysbysu'r CydAr i ddisgwyl astudiaeth achos
- **Darparwr yn ysgrifennu astudiaeth achos*** → Ar feysydd arfer orau cytûn → Disgrifio cyd-destun a chefndir yr arfer... → ...union natur y strategaeth neu'r gweithgaredd... → ... a'r effaith ar ddeilliannau
- **Darparwr yn anfon astudiaeth at y CydAr** → O fewn 4 wythnos i ddiwedd yr arolygiad → Gyda llythyr yn cadarnhau cymeradwyaeth gan yr uwch arweinydd → Cydlynwyr Arolygu i fynd ar drywydd ysgol o bryd i'w gilydd (pan fydd y SA yn dweud wrthynt i wneud hynny)
- **CydAr yn rhoi'r astudiaeth i'r SA arfer orau a'r AS perthnasol** → Arweinydd Sector i wirio cywirdeb ffeithiol yr astudiaeth, a'i golygu i gadw at arddull ysgrifennu Estyn
- **AS yn anfon yr astudiaeth at y tîm Cyhoeddiadau (a chopi i'r tîm Cyfathrebu)** → Arbed ar Sharepoint → Prawfddar-llen → Cytuno ar newidiadau gyda'r arweinydd sector
- **Tîm Cyhoeddiadau yn anfon y fersiwn derfynol at y tîm Cyfathrebu** → Anfon yr astudiaeth i'w chyfieithu → Cyhoeddi
- **Tîm Cyfathrebu yn cyhoeddi a hyrwyddo'r astudiaeth** → Gellir gwahodd y darparwr hefyd i arddangos ei arfer ragorol mewn cynhadledd Estyn
- **AS yn adolygu'r astudiaeth ar ôl 3 blynedd** → Os yw'n berthnasol o hyd, cadw'r astudiaeth ar y wefan → Os na, hysbysu'r tîm Cyfathrebu i dynnu'r astudiaeth oddi ar y wefan

* Mae’r Arolygiaeth yn cadw’r hawl i olygu cynnwys ac arddull gyflwyniadol yr astudiaethau achos a ysgrifennwyd gan yr ysgol/y darparwr. Yr Arolygiaeth sy’n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cyhoeddi astudiaeth achos.